

FRÂN WEN

WYTHNODS YNG NGHYMRU FYDD

Addasiad llwyfan
newydd gan
Mared Llywelyn



Mewn cydweithrediad â Chanolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol

PECYN CEFNOGOL I SIARADWYR CYMRAEG NEWYDD

SUPPORT PACK FOR NEW WELSH SPEAKERS

TROSOLWG

SUMMARY

PWY YW PWY?

IFAN

Trydanwr 28 oed o Bwllheli. Mae'n ddoniol ac yn gymeriad, ond yn ansicr am ei ddyfodol. Mae'n byw gyda'i Nain, sydd wedi gofalu amdano ers pan oedd yn blentyn.

MAIR

Person pwysig ym mywyd Ifan. Mae eu perthynas yn gymhleth ac mae gan Ifan deimladau cryf tuag ati. Mae Mair yn angerddol dros Gymru, yr iaith Gymraeg a'i dyfodol.

NAIN

Nain Ifan. Mae wedi gofalu amdano ers pan oedd yn blentyn ac mae'r berthynas rhyngddi hi ac Ifan wrth galon emosiynol y ddrama.

TEGID

Ffrind i Ifan a Mair. Mae'n rhannu credoau cryf Mair am Gymru, gwleidyddiaeth a'r iaith Gymraeg.

FREDDY HEINKEL

Dyn ifanc y mae Ifan yn ei gyfarfod mewn parti. Mae ei ddyfodiad yn newid cwrs noson Ifan, a'i fywyd.

TROSOLWG

SUMMARY

Y STORI

Mae Wythnos yng Nghymru Fydd yn dilyn Ifan, trydanwr 28 oed o Bwllheli.

Mae Ifan yn byw gyda'i nain. Er ei fod yn ddoniol ac yn ddipyn o gymeriad, mae'n cael trafferth ymdopi ag atgofion anodd o'i blentyndod ac yn ansicr ynghylch cyfeiriad ei fywyd.

Mae ei berthynas â Mair yn gymhleth. Mae gan Ifan deimladau cryf tuag ati, ond mae'r ddau yn gweld y byd yn wahanol. Mae Mair, ynghyd â'i ffrind Tegid, yn angerddol dros Gymru ac yn credu'n gryf yn yr angen i warchod yr iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i hunaniaeth. Mae Cymru a'r Gymraeg yn bwysig i Ifan hefyd, ond mae'n cwestiynu rhai o'u syniadau.

Un noson, mewn parti mewn ysgubor, mae Ifan yn cyfarfod â Freddy Heinkel, sy'n rhoi cyffur dirgel iddo.

Ar ôl ei gymryd, mae Ifan yn cael ei gludo'n sydyn i'r dyfodol.

TROSOLWG

SUMMARY

2033

Mae Ifan yn cyrraedd Cymru wahanol iawn.

Mae'n darganfod Y Fro, cymuned sydd wedi'i hadeiladu o amgylch yr iaith Gymraeg.

Yno, mae'n cyfarfod â phobl y mae'n eu hadnabod, ond mae eu bywydau a'u credoau wedi newid.

Ar y dechrau, mae Ifan yn cael ei ddenu at yr ymdeimlad cryf o gymuned, hunaniaeth a pherthyn y mae'n ei ddarganfod yno. Ond cyn hir, mae'n dechrau cwestiynu'r hyn y mae'n ei weld.

Pwy sy'n perthyn? Pwy sy'n cael penderfynu? A pha mor bell y dylai pobl fynd er mwyn gwarchod iaith, diwylliant a ffordd o fyw?

Wrth i'r tensiynau gynyddu, mae Ifan yn cael ei orfodi i wneud dewisiadau sydd â chanlyniadau difrifol.

2100

Mae taith Ifan yn mynd ag ef hyd yn oed ymhellach i'r dyfodol.

Mae'r Gymru y mae'n ei darganfod yn 2100 yn wahanol iawn eto. Wrth iddo geisio deall beth sydd wedi digwydd, mae'n cael ei

TROSOLWG

SUMMARY

wynebu â chwestiynau am ystyr colli iaith a beth sy'n weddill o ddiwylliant pan fo'r iaith honno'n diflannu.

Mae hefyd yn darganfod bod y dewisiadau a wnaed gan Mair, Tegid, ac Ifan ei hun, wedi arwain at ganlyniadau ymhell y tu hwnt i unrhyw beth y gallai fod wedi'i ddychmygu.

Mae'r profiad yn gorfodi Ifan i feddwl yn wahanol am ei fywyd ei hun ac am ei berthynas â Chymru, yr iaith Gymraeg a'r bobl sydd agosaf ato.

Yn y pen draw, rhaid iddo ddychwelyd i'r presennol a wynebu'r dewisiadau sy'n aros amdano yno.

Mae'r ddrama'n symud rhwng **2026, 2033 a 2100**. Dyfodol posibl sydd yma, yn hytrach na rhagfynegiad o'r hyn fydd yn digwydd.

Drwy daith Ifan, mae Wythnos yng Nghymru Fydd yn archwilio iaith, hunaniaeth, perthyn, cariad a chyfrifoldeb. Mae'n gofyn sut y gall y penderfyniadau a wnawn heddiw, rhai mawr a bach, siapio byd yfory.

Wrth galon y ddrama mae un cwestiwn:

Pa Gymru fydd?

TROSOLWG

SUMMARY

ENGLISH SYNOPSIS FOR WELSH LEARNERS

Who's Who?

IFAN

A 28-year-old electrician from Pwllheli. Funny and charming, but uncertain about his future. He lives with his grandmother, Nain, who has cared for him since he was a child.

MAIR

An important person in Ifan's life. Their relationship is complicated and Ifan has strong feelings for her. Mair is passionate about Wales, the Welsh language and its future.

NAIN

Ifan's grandmother. She has cared for Ifan since he was a child and their relationship is at the emotional heart of the play.

TEGID

A friend of Ifan and Mair. He shares Mair's strong beliefs about Wales, politics and the Welsh language.

FREDDY HEINKEL

A young man Ifan meets at a party. His arrival changes the course of Ifan's night – and his life.

TROSOLWG

SUMMARY

The Story

Wythnos yng Nghymru Fydd follows Ifan, a 28-year-old electrician from Pwllheli.

Ifan lives with his grandmother, Nain. Although he is funny and charming, he is struggling with difficult memories from his childhood and is unsure about the direction of his life.

His relationship with Mair is complicated. Ifan has strong feelings for her, but they see the world differently. Mair, together with her friend Tegid, is passionate about Wales and believes strongly in protecting the Welsh language, culture and identity.

Ifan cares about Wales and speaks Welsh, but he questions some of their ideas.

One night, at a party in a barn, Ifan meets Freddy Heinkel, who gives him a mysterious drug.

After taking it, Ifan suddenly finds himself transported into the future.

TROSOLWG

SUMMARY

2033

Ifan arrives in a very different Wales.

He discovers Y Fro, a community built around the Welsh language. Here he meets people he recognises, but their lives and beliefs have changed.

At first, Ifan is attracted to the strong sense of community, identity and belonging he finds there. But he soon begins to question what he sees.

Who belongs? Who gets to decide? And how far should people go to protect a language, a culture and a way of life? As tensions grow, Ifan is forced to make choices that have serious consequences.

2100

Ifan's journey takes him even further into the future.

The Wales he discovers in 2100 is very different again. As he tries to understand what has happened, he is confronted with questions about what it means to lose a language and what remains of a culture when that language is disappearing.

He also discovers that the choices made by Mair, Tegid, and by Ifan himself, have had consequences far beyond anything he could have imagined.

TROSOLWG

SUMMARY

The experience forces Ifan to think differently about his own life and about his relationship with Wales, the Welsh language and the people closest to him.

Eventually, he must return to the present and face the choices waiting for him there.

The play moves between **2026, 2033 and 2100**. These are possible futures rather than a prediction of what will happen.

Through Ifan's journey, Wythnos yng Nghymru Fydd explores language, identity, belonging, love and responsibility. It asks how the decisions we make today, both large and small, can shape the world of tomorrow.

At the heart of the play is one question:

Pa Gymru fydd? What kind of Wales will there be?

CEFNDIR IEITHYDDOL

LANGUAGE BACKGROUND

Tafodiaith gogledd orllewin Cymru a Phen Llŷn yn benodol sydd i'w chlywed yn y ddrama. Mae cymysgedd o Gymraeg a Saesneg neu Wenglish i'w chlywed drwy gydol y ddrama.

Mae llawer o eiriau sy'n gorffen gyda'r llythyren 'u' yn gorffen gyda sain y llythyren 'a'. Mae hyn yn nodwedd amlwg iawn yn acen yr ardal.

You will hear northwest Wales dialect in this drama, from the Pen Llŷn area specifically. There is a mixture of Cymraeg and English throughout, with some instances of Wenglish where both languages are mixed up in sentences.

GEIRFA'R DDRAMA

WORDS IN THE PLAY

ACT 1

rheibio – to bewitch, ravish.

codiad – a raise

callia – “wise up”

rhonc – die-hard

gwyrthiol – miraculous

padell – pan

y graduras – poor thing

codi pwys = gwneud iddi hi

deimlo’n sal

mygu – to suffocate

diawledig – devilish, terrible

annibyniaeth – independence

cogio = esgus

anwybyddu – to ignore

dwmbro = dw i ddim yn

gwybod

ymgyrchwyr – campaigners

tafodau llac – loose tongues

gli = edrycha

gwep = wyneb

leinio – to hit, batter

trwch blewyn – hair’s breadth

pensaer – architect

trawsnewid – transform

adfail – ruin

nunlla = dim un lle (nowhere)

purdan – purgatory

galwedigaeth – vocation

anerchiad – speech

sbiwch = edrychwch

rheolaeth – control

ffawd – fate

gwireddu – to make real

gwymon – seaweed

sathru – to stamp on,

trampled

cyniwair = troi yn yr un lle

seirff – serpents

gwegian – totter, stagger

chwyldro – revolution

i’r gad! – to battle!

cyfrifoldeb – responsibility

GEIRFA'R DDRAMA

WORDS IN THE PLAY

ACT 1

darlledu – to broadcast

gweledigaeth(au) – vision(s)

ewylllys – will

bodoli – to exist

trigolion – inhabitants

ysbrydoli – to inspire

gwreiddio – rooted

cynghreirio – to ally

darllediad – a broadcast

bregus – fragile

cecru – to bicker

hiliol – racist

braint – privilege

brwydro – to fight

dyletswydd – responsibility

caglau – clymau mewn gwallt

(fel dafad!)

diffinio – to define

bodolaeth – existence

gwythiennau – veins

bwystfil – beast

glafoerio – to salivate

hollti – to split

eithafiaeth – extremism

goroesi – survive

rhanedig – split

cytûn – in agreement

be haru chdi? – be sy'n bod

arnat ti?

parhad – perpetuation

ebargofiant – oblivion

eithafol – extremist

GEIRFA'R DDRAMA

WORDS IN THE PLAY

ACT 2

pefrio – to sparkle

Mab Darogan – son of
prophecy

gwreichionyn – spark

coelcerth – bonfire

llachar – dazzling

cadach – flannel

awchu – to yearn

pitw – trivial

meddiannu – to occupy

gor-boblogi – over-
population

ympryd – hunger strike, fast

ymgyrchu – to campaign

erfyn – to entreat

craith – scar

pydru – to rot

hynafiaid – ancestors

tywys – to guide

gerllaw – nearby

dyfroedd – waters

dychwel(yd) – return

cyfiawnder – justice

daioni – goodness

trugaredd – mercy

diau – undoubtedly

preswyllo = byw

tragywydd – evermore

dyfalbarhau – persevere

cadernid – strength

hunllefau – nightmares

bradychu – to betray

her – challenge

rhedyn – bracken

eiddigeddus – jealous

gwyrth – miracle

melltith – curse

ar draul – at the expense of


gorwel – horizon

yn dow dow – leisurely

Cliciwch y ddelwedd isod i wrando ar sesiwn arbennig i siaradwyr Cymraeg newydd a gynhaliwyd ar Zoom gyda'r dramodydd Mared Llywelyn. Y côd gwylio yw: **i8G^8yfS**

Click the image below to listen to a session organised for new Welsh speakers which was held on Zoom recently. The passcode is:
Passcode: **i8G^8yfS**

 **Sgwrs_Wythnos yng Nghymru Fydd - Shared screen with speaker view**
Sep 21, 2026 06:45 PM



Datblygwyr y pecyn gyda chefnogaeth Eirian Wyn Conlon, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol (2026).

The pack was developed with the support of Eirian Wyn Conlon, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol (2026).